Hawdd ei Ddeall

Sgrinio Clyw Babanod Cymru
Newborn Hearing Screening Wales

# Mae gan eich babi golled clyw



F1: Awst 24


Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

GIG CYMRU NHS WALES

Sganiwch yma

www.icc.gig.cymru/sgrinio-clyw-babanod

# Sut i ddefnyddio'r daflen hon




Mae hon yn daflen Hawdd ei Deall. Mae'r geiriau'n hawdd i'w darllen a'u deall. Gall geiriau **glas trwm** fod yn anodd eu deall. Mae geiriau anodd mewn lliw **trwm** y tro cyntaf maent yn cael eu defnyddio.



Efallai eich bod angen help a chymorth i ddarllen a deall y daflen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.




Mae'r daflen hon ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys: Beth sydd yn y daflen hon


Beth yw colled clyw? 4

Lefelau colled clyw 5

Ynglŷn â'r glust 6

Mathau o golled clyw 7

Cymorth i chi a'ch babi 11

Cymhorthion clyw 13

Cyfathrebu 14


Mynd i'r ysgol 15

Cymorth 16

Ble alla i gael mwy o wybodaeth? 17

Cadw'n iach 18


# Beth yw colled clyw?




Gall colled clyw ddigwydd pan nad yw rhannau o'r glust yn gweithio'n iawn.




Mae hyn yn golygu efallai na fydd eich babi yn gallu clywed cystal ag y dylai.




Mae colled clyw yn effeithio ar bawb yn wahanol.

Mae lefelau gwahanol o golled clyw.


# Lefelau colled clyw




**Ysgafn -** mae babanod yn clywed rhai sŵn siarad ond mae synau tawel yn anodd eu clywed.



**Cymedrol -** nid yw babanod yn clywed bron dim sŵn pan fydd rhywun yn siarad yn normal.




**Difrifol -** ni all babanod glywed rhywun yn siarad yn normal. Efallai y byddant dim ond yn clywed rhai synau uchel.




**Dwys –** Ni all babanod glywed unrhyw leferydd. Efallai y byddant dim ond yn clywed synau uchel iawn.

# Ynglŷn â'r glust




Mae gan eich clust dair rhan wahanol:

- allanol;
- canol; a
- mewnol.




Mae eich clustiau yn troi sŵn yn wybodaeth.

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hanfon i'ch ymennydd. Dyma sut rydym yn clywed.



Bydd y rhan fwyaf o fabanod yn gallu clywed rhai synau.




Gall **awdiolegydd** ddweud wrthych pa synau y gall eich babi eu clywed neu'n ei chael yn anodd eu clywed.

**Awdiolegydd** yw rhywun sy'n gwybod llawer am glyw.

# Mathau o golled clyw

Mae mathau gwahanol o golled clyw.




Gallwch gael problemau gyda'ch clust fewnol. Fe'i gelwir yn **golled clyw synwyrnerfol.**

**Mae colled clyw synwyrnerfol** yn golygu na fydd yr hyn y gall eich babi ei glywed yn gwella.



Mae'r rhan fwyaf o fabanod sydd â'r math hwn o golled clyw yn cael eu geni i deuluoedd sy'n gallu clywed.



Mewn rhai teuluoedd, gall colled clyw gael ei basio o rieni i'w plant.


Efallai y bydd gan fabanod broblemau clust fewnol oherwydd:



cafodd y fam haint pan oedd yn feichiog gyda'r babi;




cafodd y babi ei eni'n gynnar;



cafodd y fam drafferth wrth gael y babi;



salwch fel clwy'r pennau, y frech goch neu lid yr ymennydd.




Gallwch gael problemau gyda'ch clust allanol a chanol. Fe'i gelwir yn **golled clyw dargludol.**


**Mae colled clyw dargludol** yn golygu na all sŵn deithio drwy'r glust yn hawdd.



I'r rhan fwyaf o fabanod, nid yw'r math hwn o golled clyw yn para. Efallai y bydd yn mynd a dod.



Mewn rhai babanod, ni fydd y colled clyw yn gwella.




Mae'r colled clyw hwn yn aml yn cael ei achosi gan **hylif** yn y glust o'r enedigaeth.

Gelwir hyn yn glust ludiog. Mae hwn yn gyflwr cyffredin iawn ac yn aml gellir ei drin.




Gallwch siarad â **meddyg arbenigol.**

Mae **meddyg arbenigol** yn feddyg sy'n gwybod mwy am glyw plant.



Maent yn gweithio gyda'ch awdiolegydd i ddarganfod pam nad yw eich babi'n gallu clywed.

Ar gyfer rhai plant, efallai na fydd yn bosibl darganfod pam.



Rydym yn gwybod y gall hwn fod yn gyfnod pryderus.



Siaradwch â Thîm Cymorth y Blynyddoedd Cynnar neu rywun rydych yn ymddiried ynddo.



Mae athro **arbenigol** yn rhywun sydd wedi gwneud hyfforddiant ychwanegol i addysgu plant sydd â cholled clyw.



Mae therapydd iaith a lleferydd yn rhywun sy’n gallu helpu plant i **gyfathrebu**.



Mae gweithiwr cymdeithasol yn rhywun sy’n helpu i gefnogi teuluoedd.



Bydd y Tîm Cymorth Blynyddoedd Cynnar yn rhoi cymorth i chi a’ch babi.



Efallai y byddwch chi a'ch awdiolegydd yn penderfynu y dylai eich babi gael **cymhorthion clyw**.

Gall **cymhorthion clyw** helpu'ch babi i glywed yn well.



Ni fydd cymhorthion clyw yn boenus nac yn anghyfforddus i'ch babi eu gwisgo.




Byddwch yn cael apwyntiad arall i osod y cymhorthion clyw.



Bydd clyw eich babi a'i gymhorthion clyw yn cael eu gwirio'n aml.

# Communication

Mae plant sydd â cholled clyw a'u teuluoedd yn cyfathrebu mewn ffyrdd gwahanol.



Bydd rhai plant yn dysgu sut i siarad.



Bydd rhai plant yn dysgu sut i ddefnyddio iaith arwyddion.



Bydd rhai plant yn dysgu sut i ddefnyddio cymysgedd o'r ddau.



Mae'n bwysig iawn cyfathrebu â'ch babi cymaint â phosibl.



Mae'r rhan fwyaf o blant sydd â cholled clyw yn mynd i ysgol leol.



Efallai y bydd rhai plant yn mynd i ysgol arbenigol.



Mae'r ysgolion hyn yn cefnogi plant sydd â cholled clyw.



Bydd athro arbenigol yn gwneud yn siŵr bod eich plentyn yn cael y cymorth sydd ei angen arno.

# Cymorth pellach




Efallai y bydd cymorth arall ar gael i'ch helpu i ofalu am eich babi.




Mae hyn yn cynnwys cymorth am arian.



Gallwch gael rhagor o wybodaeth gan:

- Dîm Cymorth y Blynyddoedd Cynnar;
- Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar;
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau;
- Cyngor ar Bopeth.

# Ble alla i gael mwy o wybodaeth?



Ffôn:

De-ddwyrain Cymru: 029 2184 3568

De-orllewin Cymru: 01792 343364

Gogledd Cymru: 03000 848710



E-bost:

sgrinio-clyw-babanod@wales.nhs.uk




Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd yn cymryd yr un faint o amser i'ch ateb, pa bynnag iaith rydych yn ei dewis.




I gael rhagor o wybodaeth am sgrinio a'r profion gwahanol, ewch i'n gwefan:

www.icc.gig.cymru/sgrinio-clyw-babanod

National Deaf Children's Society

Gallwch hefyd gysylltu â'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar.

www.ndcs.org.uk

Ffôn: 020 7490 8656

E-bost: ndcs@ndcs.org.uk

# Cadw’n iach




Ewch i gael eich sgrinio pan fyddwch yn cael eich gwahodd.



Sicrhewch eich bod chi a’ch babi’n cael y **brechiadau** diweddaraf pan fyddant yn cael eu cynnig.

Mae **brechlyn** yn feddyginiaeth sy’n eich cadw’n ddiogel rhag dal salwch.




Rhowch y gorau i smygu. Gallwch gael help am ddim i’ch cefnogi i roi’r gorau i smygu.

Ffoniwch Helpa Fi i Stopio ar: 0800 085 2219



Bwyta bwyd iach.



Symud mwy.



Yfed llai o alcohol.

**Delweddau drwy garedigrwydd:
Photosymbols, Freepik, Shutterstock,
Adobe Stock ac Flatboy**